# Agenda - Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Mehefin 2021

Amser: 10.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIsDdeddfwriaeth@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (10.00-10.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:30

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:30-10:40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 **SL(6)008 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 1 - 13)

**ISLC(6)-02-21 - Papur 1** - Adroddiad

**ISLC(6)-02-21 - Papur 2** - Rheoliadau

**ISLC(6)-02-21 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**ISLC(6)-02-21 - Papur 4** - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Mai 2021

**2.2 SL(6)010 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021**

(Tudalennau 14 - 24)

**ISLC(6)-02-21 – Papur 5** – Adroddiad

**ISLC(6)-02-21 – Papur 6** – Rheoliadau

**ISLC(6)-02-21 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**ISLC(6)-02-21 – Papur 8** – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Mehefin 2021

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**2.3 SL(6)009 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021**

(Tudalennau 25 - 46)

**ISLC(6)-02-21 – Papur 9** – Adroddiad

**ISLC(6)-02-21 – Papur 10** – Rheoliadau

**ISLC(6)-02-21 – Papur 11** – Memorandwm Esboniadol

**ISLC(6)-02-21 – Papur 12** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 4 Mehefin 2021

**2.4 SL(6)011 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

(Tudalennau 47 - 57)

**ISLC(6)-02-21 – Papur 13** – Adroddiad

**ISLC(6)-02-21 – Papur 14** – Rheoliadau

**ISLC(6)-02-21 – Papur 15** – Memorandwm Esboniadol

**ISLC(6)-02-21 – Papur 16** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mehefin 2021

# SL(6)008 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn enwedig yr esemptiadau o'r gwaharddiad ar fynediad i Gymru o wledydd ar y rhestr goch. O dan y Rheoliadau hyn, mae'r esemptiad ar gyfer morwyr ac arolygwyr a syrfewyr llongau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd ar y rhestr goch wedi ei ddiwygio i eithrio personau o'r fath sy'n dod i Gymru i weithio ar longau mordeithio.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymestyn dyddiad dod i ben y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr hyd at 31 Mai 2022.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o bobl sydd wedi'u hesemptio o'r gwaharddiad ar ddod i mewn i Gymru o wlad ar y rhestr goch drwy eithrio o'r esemptiad bersonau penodol sy'n dod i Gymru i weithio ar longau mordeithio.

Mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Mai 2021, dywedodd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod y Rheoliadau'n angenrheidiol ac yn gyfiawn "o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â’r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn".

Fodd bynnag, nid oes esboniad o'r dystiolaeth na'r rhesymau pam mae angen y newid penodol hwn a pham mae angen eithrio’r grŵp penodol hwn o bobl o'r esemptiad (tra bod grwpiau eraill yn parhau i fod wedi'u hesemptio).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> “*Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae’r Llywodraeth o’r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.*”

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> “*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.*”

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri’r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Mai 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

> “*Trwy beidio â chydymffurfio â’r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.*”

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwynt rhinweddau 1.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**8 Mehefin 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 646 (Cy. 166)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) (y "Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gwahardd personau rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau hynny yn ystod y 10 niwrnod blaenorol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn eithrio mordwywyr ac arolygwyr a syrfewyr llongau sy'n gweithio ar longau mordeithio o'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

esemptiadau ar gyfer y rolau hynny rhag gofynion rheoliad 12E.

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio’r dyddiad y mae’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn dod i ben.

Mae’r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy’n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol (“gweithredwyr”) sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin. Yn unol â’r gofynion hynny rhaid i weithredwyr, er enghraifft, sicrhau bod teithwyr sy’n teithio ar y gwasanaethau hynny yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol a’u bod wedi gwneud trefniadau i gymryd profion pellach ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy’n dod o’r tu allan i’r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn diwygio’r dyddiadau y mae’r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, yn y drefn honno, yn dod i ben.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 646 (Cy. 166)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 4.24 p.m. ar 28 Mai 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 6.30 p.m. ar 28 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 4.00 a.m. ar 29 Mai 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 29 Mai 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae’r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i “the appropriate Minister”. O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 12E(2)(d)(ia) (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) rhodder—

"(ia) paragraff 7, oni bai ei fod wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio, neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig ar ôl gweithio, ar fwrdd llong fordeithio;

(ib) paragraff 8;

(ic) paragraff 9, oni bai ei fod wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio, neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig ar ôl gweithio, ar fwrdd llong fordeithio;

(id) paragraff 10;".

(3) Yn rheoliad 20(1) (y Rheoliadau'n dod i ben), yn lle "y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y deuant i rym" rhodder "31 Mai 2022".

**Diwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

**3.** Yn rheoliad 11(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru)

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156) ac O.S. 2021/584 (Cy. 161).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Diwygio) 2021(**1**) (dod i ben), yn lle “7 Mehefin 2021” rhodder “31 Mai 2022”.

**Diwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020**

**4.** Yn rheoliad 11(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020(**2**) (y Rheoliadau hyn yn dod i ben), yn lle “y 7fed diwrnod o Fehefin 2021” rhodder “31 Mai 2022”.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 4.24 p.m. ar 28 Mai 2021

(**1**) O.S. 2021/48 (Cy. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/305 (Cy. 78) ac O.S. 2021/584 (Cy. 161).

(**2**) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/457 (Cy. 145) ac O.S. 2021/584 (Cy. 161).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021.

**Eluned Morgan AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

28 Mai 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc) 2020 (y "Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd")

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolynnau o'r feirws hwnnw, gan deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn effeithio ar unrhyw un o'r hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ac, i'r graddau y gellir effeithio ar unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir cyfiawnhau ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid hawliau unigolion.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau

Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dyddiad dod i ben y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr hyd at 31 Mai 2022. Maent hefyd yn diwygio'r esemptiad rhag y gwaharddiad ar fynediad i deithwyr ar y rhestr goch ar gyfer mordwywyr ac arolygwyr a syrfewyr llongau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd y rhestr goch. Mae'r diwygiad hwn yn eithrio o'r esemptiad y cyfryw bersonau sy'n cyrraedd Cymru i weithio ar longau mordeithio, neu sydd wedi gweithio arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

28 Mai 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym o 04:00 ddydd Sadwrn 29 Mai, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag o er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dyddiad dod i ben y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr hyd at 31 Mai 2022. Maent hefyd yn diwygio'r esemptiad rhag y gwaharddiad ar fynediad i deithwyr ar y rhestr goch ar gyfer mordwywyr ac arolygwyr a syrfewyr llongau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd y rhestr goch. Mae'r diwygiad hwn yn eithrio o'r esemptiad y cyfryw bersonau sy'n cyrraedd Cymru i weithio ar longau mordeithio, neu sydd wedi gweithio arnynt.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a’r Trefnydd, David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Interim, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# SL(6)010 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)".

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.  Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Portiwgal o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn ychwanegu Affganistan, yr Aifft, Bahrain, Costa Rica, Sri Lanca, y Swdan a Trinidad a Tobago at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 7 Mehefin 2021.  Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**8 Mehefin 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 669 (Cy. 170)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Portiwgal o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn ychwanegu Affganistan, yr Aifft, Bahrain, Costa Rica, Sri Lanka,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Sudan a Trinidad a Tobago at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 669 (Cy. 170)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021

*Gwnaed* *6 Mehefin 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *7 Mehefin 2021*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 8 Mehefin 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 8 Mehefin 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiad i Atodlen 3**

**3.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer "Portiwgal".

**Diwygiadau i Atodlen 3A**

**4.** Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Affganistan"

"Yr Aifft"

"Bahrain"

"Costa Rica"

"Sri Lanka"

"Sudan"

"Trinidad a Tobago".

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Mehefin 2021

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161) ac O.S. 2021/646 (Cy. 166).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021.

**Eluned Morgan AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

7 Mehefin 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolynnau o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- Ychwanegu **Affganistan, yr Aifft, Bahrain, Costa Rica, Sri Lanka, Sudan a Trinidad a Tobago** at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau
- Tynnu **Portiwgal** oddi ar y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau ac yn ei hychwanegu at y "rhestr oren".

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7 Mehefin 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 8 Mehefin 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y diwygiadau a ganlyn:

- Mae **Affganistan, yr Aifft, Bahrain, Costa Rica, Sri Lanka, Sudan a Trinidad a Tobago** wedi eu hychwanegu at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau;
- Mae **Portiwgal** wedi ei dynnu oddi ar y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau a'i hychwanegu at y "rhestr oren".

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)009 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod Cymru gyfan yn symud i Lefel Rhybudd 1. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) yn gymwys yng Nghymru o 6.00am ar 7 Mehefin 2021.

Mae Atodlen 1 yn nodi cyfyngiadau a gofynion sy'n ymwneud, er enghraifft, â:

- chynulliadau yng nghartrefi pobl;
- cynulliadau yn yr awyr agored;
- cynulliad mewn llety gwyliau;
- presenoldeb mewn priodasau, angladdau ac addoldai;
- cymryd rhan mewn cynulliadau a drefnir gan glybiau ac elusennau;
- trefnu digwyddiadau;
- awdurdodi digwyddiadau gan Weinidogion Cymru;
- cau rhai busnesau fel clybiau nos a rinciau sglefrio iâ.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan gynnwys Atodlen 1, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1609/contents/2021-05-17.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.*
>
> *Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> **"***"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau ar yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r trydydd pwynt adrodd o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**9 Mehefin 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 668 (Cy. 169)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r Rheoliadau yn darparu bod Cymru gyfan yn symud o Lefel Rhybudd 2 i Lefel Rhybudd 1 o 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau yn cymryd effaith.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau er mwyn—

- cyfyngu ar gynulliadau o dan do mewn anheddau preifat i aelodau o un aelwyd neu aelwyd estynedig yn unig. Caiff aelwydydd estynedig gynnwys hyd at dair aelwyd ac un aelwyd anghenion llesiant;
- darparu y caiff hyd at 30 o bobl ymgynnull mewn unrhyw fangre yn yr awyr agored, gan gynnwys yn yr awyr agored mewn gerddi preifat a mangreoedd rheoleiddiedig;
- darparu na chaiff mwy na 30 o bobl fynd i ddathliad o dan do o briodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ddathliad o dan do o fywyd person ymadawedig;
- darparu na chaiff mwy na 30 o bobl fynd i gynulliad rheoleiddiedig o dan do;
- darparu y caiff person mewn digwyddiad rheoleiddiedig a gynhelir yn yr awyr agored gymryd rhan mewn cynulliad sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl;
- darparu na chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, drefnu digwyddiad oni bai ei fod yn ddigwyddiad rheoleiddiedig, yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, a lle nad yw mwy na 10,000 (pan fo pob person sy'n bresennol yn eistedd fel arfer) neu 4,000 (ar gyfer digwyddiadau eraill) o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg. Mae eithriadau cyfyngedig sy'n parhau i ganiatáu, er enghraifft, priodasau, angladdau, dathliadau o briodasau etc., cynulliadau rheoleiddiedig bach, a digwyddiadau mewn anheddau preifat (ym mhob achos, pa un a ydynt yn digwydd o dan do ai peidio). Mae newidiadau cyfatebol wedi eu gwneud hefyd i'r paragraffau perthnasol yn Atodlenni 2 i 4, ond gyda niferoedd llai o bobl a gaiff fod yn bresennol;
- ei gwneud yn ofynnol i rinciau sglefrio iâ barhau i fod ar gau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud yn glir effaith diwygiad sydd wedi ei wneud gan O.S. 2021/583 (Cy. 160) i'r rheolau ar weini bwyd a diod mewn sinemâu, meysydd chwaraeon a theatrau trwyddedig ac yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 668 (Cy. 169)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 3.46 p.m. ar 4 Mehefin 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 6.30 p.m. ar 4 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 17—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl "fangre" mewnosoder ", ac eithrio mewn sinemâu, meysydd chwaraeon a theatrau";

(b) yn lle paragraff (4A) rhodder—

"(4A) Nid yw is-baragraffau (b)(i) a (ii) o baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) cwsmeriaid mewn—

(i) sinemâu,

(ii) meysydd chwaraeon, neu

(iii) theatrau,

pan fo'r cwsmeriaid hynny yn eistedd fel arfer yn y fangre (ac eithrio pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod neu pan weinir bwyd neu ddiod iddynt) ar gyfer arddangosiad ffilm, digwyddiad chwaraeon byw neu berfformiad theatraidd byw, neu

(b) personau sy'n mynd i gynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig sy'n cael ei gynnal yn yr awyr agored.

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154) ac O.S. 2021/583 (Cy. 160).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4B) At ddiben paragraff (4A), mae digwyddiad chwaraeon neu berfformiad theatraidd "byw" yn un y mae'r cwsmer yn dyst iddo ac eithrio drwy ddarllediad."

(3) Yn rheoliad 28(3)(a), ar ôl "2(1)" mewnosoder "neu (1A)".

(4) Yn rheoliad 37(1)(a), ar ôl "2(1)" mewnosoder "neu (1A)".

(5) Yn rheoliad 57—

(a) ym mharagraff (7)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "yn gynulliad" rhodder "neu ddigwyddiad yn gynulliad neu ddigwyddiad";

(ii) yn is-baragraff (b)(ii), yn lle "rheoliadau 16 ac 18(1)" rhodder "Rhan 4";

(b) ym mharagraff (8)—

(i) ym mhob lle y mae'n digwydd, ar ôl "cynulliad" mewnosoder "neu'r digwyddiad";

(ii) yn is-baragraff (b)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (i), yn lle "rheoliad 16" rhodder "Rhan 4";

(bb) ym mharagraff (i), yn lle "at ddibenion y rheoliad hwnnw" rhodder "o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 15";

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig i'w drin fel pe na bai'n cael ei gynnal "yn yr awyr agored" am y rhesymau a ganlyn yn unig—

(a) y darperir cyfleusterau o dan do ar gyfer gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed yn yr awyr agored;

(b) y darperir cyfleusterau o dan do eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y cynulliad neu'r digwyddiad."

(6) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (1), hepgorer "sy'n cynnwys mwy na 6 o bobl";

(ii) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored os nad yw'r cynulliad yn cynnwys mwy na 30 o bobl.";

(iii) yn is-baragraff (2)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "(1)" rhodder "(1A)";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(bb) ym mharagraff (a), yn lle "6 aelwyd" rhodder "30 o aelwydydd";

(iv) yn is-baragraff (5), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—

(i) yn byw yn yr un fangre, a

(ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.";

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn is-baragraff (1)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl "annedd breifat" mewnosoder "neu mewn llety gwyliau neu lety teithio";

(bb) ym mharagraff (a), hepgorer "neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig,";

(cc) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) yn yr awyr agored mewn mangre reoleddiedig, sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd;";

(ii) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd mewn llety gwyliau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig.

(1B) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored os nad yw'r cynulliad yn cynnwys mwy na 30 o bersonau.";

(iii) yn is-baragraff (2)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "is-baragraff (1)" rhodder "is-baragraffau (1) ac (1B)";

(bb) ym mharagraff (a)(i), hepgorer ", neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig";

(cc) ym mharagraff (a)(ii), hepgorer "mewn mangre nad yw'n fangre reoleiddiedig";

(iv) yn is-baragraff (5)—

(aa) ym mharagraff (e)—

(i) yn lle "50" rhodder "30";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) hepgorer "neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 100 o bobl mewn mangre o'r fath,";

(iii) hepgorer "(yn y naill achos na'r llall)";

(bb) ym mharagraff (i)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" rhodder "i unrhyw raddau";

(ii) yn is-baragraff (i), yn lle "50" rhodder "30";

(cc) yn lle paragraff (j) rhodder—

"(j) cymryd rhan mewn cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig sy'n digwydd yn yr awyr agored, yn mynd i gynulliad neu ddigwyddiad o'r fath neu'n hwyluso cynulliad neu ddigwyddiad o'r fath;";

(dd) ym mharagraff (k), ar ôl "cynulliad rheoleiddiedig" mewnosoder ", mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio,";

(c) ym mharagraff 4—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

(a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),

(b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac

(c) nad yw mwy na nifer y bobl a ganiateir yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) Nifer y bobl a ganiateir yw—

(a) pan fo pob person sy'n bresennol yn eistedd fel arfer yn ystod y digwyddiad, 10000;

(b) fel arall, 4000.

(1B) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy'n gweithio, neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i'w drin fel pe bai'n bresennol yn y digwyddiad.";

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;

(b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;

(c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;

(d) angladd;

(e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y fangre, i—

(i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(f) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac—

(i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(g) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).";

(iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "50 neu 100 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd" rhodder "nifer y bobl a ganiateir yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg";

(d) ym mharagraff 7(1), yn lle "neu 10" rhodder ", 10 neu 11";

(e) ar ôl paragraff 10 mewnosoder—

"**11.** Rinciau sglefrio iâ."

(7) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 2(6)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) ym mharagraff (i), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu’n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”;

(ii) ym mharagraff (j), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer “yn gyfan gwbl neu’n bennaf”;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

(a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),

(b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac

(c) nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i’w drin fel pe bai’n bresennol yn y digwyddiad.”;

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n ymwneud â threfnu—

(a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;

(b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;

(c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;

(d) angladd;

(e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 50 o bobl mewn mangre o’r fath, heb gyfrif (yn y naill achos na’r llall) bersonau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre, i—

(i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac—

(i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(g) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd yn yr awyr agored ac—

(i) lle nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, oni bai bod y cynulliad wedi ei drefnu at ddibenion protestio, neu bicedu a gynhelir yn unol â Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**1**), a

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(h) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).";

(iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "30 neu 50 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd" rhodder "50 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg".

(8) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 2(6)—

(i) ym mharagraff (g), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" rhodder "i unrhyw raddau";

(ii) ym mharagraff (h), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer "yn gyfan gwbl neu'n bennaf";

(b) ym mharagraff 3(6)—

(**1**) 1992 p. 52.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) ym mharagraff (j), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu’n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”;

(ii) ym mharagraff (k), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer “yn gyfan gwbl neu’n bennaf”;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

(a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),

(b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac

(c) nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i’w drin fel pe bai’n bresennol yn y digwyddiad.”;

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n ymwneud â threfnu—

(a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;

(b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 6;

(c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;

(d) angladd;

(e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 15 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre o’r fath, heb gyfrif (yn y naill achos na’r llall) bersonau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre, i—

(i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(f) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac—

(i) lle nad yw mwy na 15 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(g) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd yn yr awyr agored ac—

(i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, oni bai bod y cynulliad wedi ei drefnu at ddibenion protestio, neu bicedu a gynhelir yn unol â Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, a

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(h) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).";

(iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd" rhodder "30 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg".

(9) Yn Atodlen 4, paragraff 4—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

(a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),

(b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac

(c) nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy'n gweithio, neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

chynnal digwyddiad i'w drin fel pe bai'n bresennol yn y digwyddiad.";

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu—

(a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 2,

(b) digwyddiad chwaraeon elît a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;

(c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;

(d) angladd.";

(c) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd" rhodder "30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg".

(10) Yn Atodlen 5, paragraff 1, yng Ngholofn 3 o'r tabl, yn lle "2" rhodder "1".

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.46 p.m. ar 4 Mehefin 2021

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

4 Mehefin 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y prif Reoliadau.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr 2020 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y Cynllun Rheoli'r Coronafeirws. Diweddarwyd y cynllun hwn ar 19 Mawrth 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau ac yn darparu o 6.00am ar 7 Mehefin 2021 bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny'n gymwys i Gymru gyfan. Fodd bynnag, er mwyn symud i Lefel Rhybudd 1 o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws yn raddol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 yn cael eu diwygio mewn ffyrdd amrywiol. Mae Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd, yn darparu:

- bod cynulliadau dan do mewn anheddau preifat yn parhau wedi'u cyfyngu i aelodau un aelwyd neu aelwyd estynedig yn unig. Fodd bynnag, caiff aelwydydd estynedig bellach gynnwys hyd at dair aelwyd ac un aelwyd anghenion llesiant (y cyfeirir ati weithiau fel swigen gefnogaeth).
- bod hyd at bedwar o bobl sy'n rhannu cyfleusterau byw yn gallu ymgynnull dan do mewn annedd preifat. Mae hyn yn ddiwygiad i Atodlen 1 a bydd yn parhau nes i Gymru symud i Lefel Rhybudd 1 o'r Cynllun Gweithredu. Yr adeg honno, bydd hyd at chwe pherson (nad ydynt o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig) yn cael ymgynnull mewn anheddau preifat.
- bod hyd at 30 o bobl yn gallu cwrdd mewn unrhyw safle yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat ac mewn safleoedd rheoleiddiedig.

Mewn perthynas â digwyddiadau:

- gellir cynnal digwyddiadau a chynulliadau rheoleiddiedig yn yr awyr agored ar gyfer hyd at 4,000 o bobl (ar gyfer digwyddiadau lle mae pobl yn sefyll ar eu traed) a 10,000 (ar gyfer digwyddiadau lle mae pobl yn

eistedd). Bydd capasiti gwirioneddol digwyddiad yn dibynnu ar ei asesiad risg. Nid oes terfyn ar nifer y bobl y gall mynychwr mewn digwyddiad ymgynnull â hwy, ond rhaid i drefnwyr y digwyddiad gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws.

    - yn amodol ar eithriadau, ni chaiff neb drefnu digwyddiad dan do. Mae'r eithriadau'n cynnwys dathliadau dan do mewn safleoedd priodas rheoleiddiedig, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, a dathliadau dan do ar safleoedd o'r fath o fywyd person ymadawedig. Maent hefyd yn cynnwys cynulliadau rheoleiddiedig dan do. Ym mhob un o'r achosion hyn, gall uchafswm o 30 o bobl fod yn bresennol.

- Rhaid i rinciau sglefrio iâ barhau i fod ar gau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau i wneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, gan gynnwys i nodi’r un darpariaethau ar gyfer digwyddiadau sydd yn Atodiad 1 yn Atodiad 2 i 4 hefyd. Yn ogystal, maent yn egluro bod yr eithriad i'r gofyniad i weini wrth y bwrdd mewn sinemâu, theatrau a meysydd chwaraeon ddim ond yn gymwys pan fo person yn eistedd i wylio’r digwyddiad perfformio neu chwaraeon, ac yn ymestyn yr eithriad hwnnw i bobl sy’n mynd i gynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig yn yr awyr agored.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i lunio mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i’r afael â’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Mehefin 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Deuant i rym am 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, unwaith y mae'r offeryn statudol wedi ei gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 4 Gorffennaf 2021, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnwys y ddadl ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ym musnes arfaethedig y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)011 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Prif Reoliadau) fel nad yw'r gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau yn gymwys mewn perthynas â digwyddiadau penodedig.

Er enghraifft, nid yw'r gwaharddiad yn gymwys i ddigwyddiad a gaiff ei gynnal yn yr awyr agored mewn safle rheoledig (heblaw am lety gwyliau neu lety teithio) naill ai: (i) lle nad oes mwy na 30 o bobl yn bresennol, neu (ii) pan fo'r holl bobl sy'n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd. (Nid yw plant o dan 11 mlwydd oed, gofalwyr pobl sy'n bresennol yn y digwyddiad, pobl sy'n gweithio yn y digwyddiad na phobl sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn y digwyddiad yn cyfrif o ran y terfyn o 30 o bobl.)

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau*

*Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am gyffwrdd â hawliau yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro**
**9 Mehefin 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2021 Rhif 686 (Cy. 172)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiad yn gwneud yn glir effaith y gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2021 Rhif 686 (Cy. 172)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 3.35 p.m. ar 8 Mehefin 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.45 p.m. ar 8 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 6.00 p.m. ar 8 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar 8 Mehefin 2021.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, paragraff 4—

(a) yn is-baragraff (2)(e), yn lle "o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y fangre" rhodder "mewn mangre reoleiddiedig lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol";

(b) yn is-baragraff (2)(f)(i), hepgorer ", heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo";

(c) ar ôl is-baragraff (2)(g) mewnosoder—

"(h) digwyddiad a gynhelir i unrhyw raddau o dan do mewn mangre reoleiddiedig ac—

(i) lle nad yw mwy na 6 o bobl yn bresennol, neu

(ii) lle mae'r holl bobl sy'n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd neu, os yw'r fangre reoleiddiedig yn lety

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160) ac O.S. 2021/668 (Cy. 169).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gwyliau neu lety teithio, o'r un aelwyd estynedig;

(i) digwyddiad a gynhelir yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig (ac eithrio mewn llety gwyliau neu lety teithio) ac—

(i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, neu

(ii) lle mae'r holl bobl sy'n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd;

(j) digwyddiad a gynhelir yn yr awyr agored mewn mangre nad yw'n fangre reoleiddiedig neu yn yr awyr agored mewn llety gwyliau neu lety teithio ac—

(i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, neu

(ii) lle mae'r holl bobl sy'n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig.";

(d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (2), nifer y personau sy'n bresennol mewn digwyddiad, nid yw'r canlynol i'w hystyried—

(a) unrhyw blant o dan 11 oed,

(b) gofalwr unrhyw berson sy'n bresennol, neu

(c) unrhyw berson sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo."

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.35 p.m. ar 8 Mehefin 2021

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

8 Mehefin 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.  Ceir rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â hawliau yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y prif Reoliadau.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Diwygiodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021 y prif Reoliadau er mwyn symud Cymru gyfan i Lefel Rhybudd 1, ymhlith materion eraill, a diwygio'r cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau ar Lefel Rhybudd 1.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y prif Reoliadau i egluro nad yw'r gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau yn gymwys i ddigwyddiad a gynhelir yn yr awyr agored a lle nad oes mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio , neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol, yn y digwyddiad. Mae'r Rheoliadau hefyd yn egluro nad yw'r gwaharddiad yn gymwys pan fo'r holl bersonau sy'n bresennol yn aelodau o un aelwyd neu, mewn amgylchiadau pan gynhelir y digwyddiad yn yr awyr agored mewn llety gwyliau neu lety teithio, yr un aelwyd estynedig.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. heddiw.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Mehefin 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Deuant i rym am 6.00 p.m. heddiw. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, unwaith y mae'r offeryn statudol wedi ei gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 5 Gorffennaf 2021, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnwys y ddadl ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ym musnes arfaethedig y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.